**Dyddiad:** **Dydd Mercher 14 Ionawr 2004**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Teitl:** **Comisiynydd Pobl Hn**

## Diben

1. Mae'r papur hwn yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor **roi sylwadau** ar gasgliadau'r Grp Cynghori sydd ar y gweill. Sefydlwyd y Grp Cynghori i ystyried y cynnig i sefydlu Comisiynydd Pobl Hn. Bydd aelodau'r Grp Cynghori yn mynychu cyfarfod y Pwyllgor.

## Cefndir

2. Roedd Maniffesto Llafur ar gyfer Etholiadau Cynulliad 2003 yn cynnwys ymrwymiad i sefydlu Comisiynydd Pobl Hn yng Nghymru. Roedd y cynnig i sefydlu Comisiynydd hefyd yn un o argymhellion yr Adroddiad "Pan fwyf yn hen a pharchus".

3. Sefydlais y Grp Cynghori hwn fel Grp Gorchwyl a Gorffen yn ystod haf 2003, gyda'r cylch gwaith a ganlyn:

> "Ystyried statws, pwerau, swyddogaeth a chyfrifoldebau'r Comisiynydd Pobl Hn ac i wneud argymhellion i'r Gweinidog dros Iechyd a'r Gwasanaethau Cyhoeddus erbyn mis Mawrth 2004."

John Griffiths yw'r Cadeirydd, ac mae rhestr lawn o'r aelodau i'w chael yn Atodiad A.

4. Mae cyfres o bum cyfarfod ar y gweill ar hyn o bryd, a disgwylir y bydd yr olaf yn cael ei gynnal fis Mawrth 2004. Bydd y Grp Cynghori yn cyflwyno'i adroddiad a'i argymhellion imi fis Mawrth 2004. Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus yn y gwanwyn/dechrau'r haf a bydd cyfle hefyd i drafod adroddiad y Grp Cynghori yn y cyfarfod Llawn. Bwriedir i'r Fforwm Partneriaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Pobl Hn ystyried yr adroddiad, ynghyd â dadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd o ganlyniad i'r ymgynghoriad cyhoeddus, yn ystod hydref 2004.

## Ystyriaeth

5. Yn gyffredinol, mae'r Grp Cynghori yn ystyried y dylai'r Comisiynydd weithredu fel hyrwyddwr annibynnol ar ran pobl hn, ac y dylai fod yn gyfrifol am rymuso pobl hn a sicrhau bod eu hawliau cyfreithiol yn cael eu gweithredu. Mae'n debygol o argymell **nod** cyffredinol ar gyfer y Comisiynydd,

megis *hyrwyddo a diogelu hawliau ac urddas pobl hn yng Nghymru a herio achosion o wahaniaethu yn erbyn pobl hn*

6. Mae'r Grp wedi trafod **dyletswyddau y chyfrifoldebau'r** Comisiynydd yn fanwl. Er nad yw'r aelodau wedi dod i benderfyniad terfynol yngln â'r rhain, maent yn debygol o ymwneud â'r meysydd a ganlyn:

- Dylanwadu ar bolisïau a'r modd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu
- Hyrwyddo a grymuso
- Ffynhonnell gwybodaeth, eiriolaeth a chymorth
- Diogelu a chynyddu hawliau
- Ymchwilio i gwynion

7. Mae manylion y dyletswyddau a'r cyfrifoldebau hyn yn debygol o gynnwys:

<u>A: Dylanwadu ar bolisïau a'r modd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu</u>

- Gwneud yn sir bod cyrff cyhoeddus, yn ogystal â'r Comisiynydd ei hun, yn ystyried Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ynghylch Pobl Hn wrth ymgymryd â'u gwaith.

- Adolygu effaith polisïau a materion yn ymwneud â phobl hn yng Nghymru; gweld pa feysydd y dylid eu datblygu neu eu newid; rhoi sylwadau ar flaenoriaethau o ran buddsoddi; a rhoi cyngor, ar ei liwt ei hun, i gyrff etholedig perthnasol (gan gynnwys Llywodraeth y Cynulliad, y GIG a llywodraeth leol)

- Cynhyrchu adolygiadau cyhoeddedig yn rheolaidd ar effaith gwasanaethau ar bobl hn yng Nghymru ac adroddiadau ar statws a lles pobl hn.

- Cynhyrchu cyhoeddiadau a datganiadau polisi ar faterion sy'n effeithio ar bobl hn.

- Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar weithgareddau'r comisiynydd ei hun, gan ddefnyddio gwahanol gyfryngau yn unol ag anghenion pobl hn.

<u>B: Hyrwyddo a Grymuso</u>

- Rhoi cyhoeddusrwydd i'r trefniadau sydd ar gael i bobl hn fedru cysylltu â'r Comisiynydd a chymryd camau rhesymol i wneud yn sir bod trefniadau hwylus ar gael i bob unigolyn a grwpiau o bobl hn yng Nghymru ei (g)weld.

- Cymryd camau ymarferol i ofyn beth yw barn a blaenoriaethau pobl hn a gwneud yn sir bod eu sylwadau ar faterion sy'n effeithio arnynt yn cael eu clywed a'u deall

- Gwneud yn sir bod lleisiau pobl hn, sy’n cael eu bwrw i’r ymylon, yn cael eu clywed ac y cymerir camau wedyn i’w helpu

- Dylanwadu ar ddiwylliant Cymru i adlewyrchu safbwynt cadarnhaol yng nghyswllt pobl hn a heneiddio, a hybu gwell dealltwriaeth a pharch rhwng y cenedlaethau

- Ymchwilio i’r hyn sy’n rhwystro pobl hn rhag cyfrannu’n llawn i’r gymdeithas, a thynnu sylw at yr hyn y mae angen mynd i’r afael ag ef

- Grymuso pobl hn sy’n rhan o garfanau sy’n agored i niwed ac sydd, o bosibl, yn cael eu bwrw i’r ymylon, a’u galluogi i gyfrannu’n gadarnhaol fel dinasyddion ac fel defnyddwyr gwasanaethau

- Ymgynghori â sefydliadau ac unigolion i gynyddu’r nifer sy’n cymryd rhan yn y broses o lunio polisïau, cynllunio gwasanaethau, a’r ffordd y cânt eu darparu – a gweithredu yn unol â chanlyniadau’r ymgynghori hwnnw.

C: Ffynhonnell gwybodaeth, eiriolaeth a chymorth

- Cyfeirio pobl at wybodaeth, cyngor a gwasanaethau eirioli ar gyfer pobl hn, gan roi’r wybodaeth iddynt yn uniongyrchol pan fo angen, a gweithredu fel eiriolwyr ar eu rhan os dyma’u dymuniad

- Monitro ffynonellau’r cyngor a’r wybodaeth sydd ar gael i bobl hn a hybu gwell cydweithrediad rhyngddynt; rhannu a chyfnewid gwybodaeth

- Codi ymwybyddiaeth o bobl hn a’u hawliau a swyddogaeth y Comisiynydd o ran mynnu a diogelu’r hawliau hynny

- Gwrando – cael gwybodaeth ac adroddiadau gan fforymau lleol ac o wefan y Comisiynydd Pobl Hn, a thrwy unrhyw ddulliau eraill o gyfathrebu

- Cyhoeddi, hyrwyddo a chomisiynu ymchwil ar hawliau ac anghenion pobl hn a hyrwyddo enghreifftiau o arferion da

D: Diogelu a chynyddu hawliau

- Cynorthwyo a galluogi pobl hn wrth iddynt fynnu eu hawliau cyfreithiol, ac wrth iddynt gyfeirio at Egwyddorion y Cenhedlaeth Unedig ynghylch Pobl Hn; a diogelu’r hawliau hynny ar eu rhan

- Herio unrhyw achos o wahaniaethu ar sail oed yng Nghymru

- Herio anghydraddoldeb ac annhegwch yng ngallu pobl hn i gael gwybodaeth a gwasanaethau, ac

yn y gwasanaethau a ddarperir iddynt

- Ymgyrchu i gryfhau'r gyfraith er mwyn iddi weithio'n well i ddiogelu pobl hn

E: Ymchwilio i gwynion

- Cymryd camau rhesymol i wneud yn sir bod pobl hn yn medru cwyno'n effeithiol am wasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau y mae cyrff anstatudol yn eu darparu, a'u galluogi i wneud hynny

- Annog y rhai sy'n gweithio gyda phobl hn i "chwythu'r chwiban" os oes pryderon difrifol, a chynnal adolygiadau o'r gweithdrefnau ar gyfer chwythu'r chwiban, cwyno ac eirioli

- Adolygu achosion unigolion pan fo'r drefn gwyno a'r prosesau ymchwilio

  wedi'u disbyddu; a chynnal ymchwiliadau ffurfiol yn ôl y galw [gyda'r gallu i ddefnyddio cyrff cyhoeddus a phreifat ar gyfer pobl hn a gofyn am gael gweld unigolion a phapurau]

- Cynorthwyo pobl hn, gan gynnwys rhoi cymorth ariannol, i gymryd camau cyfreithiol pan honnir na weithredwyd yn unol â'u hawliau, mewn achosion strategol neu achosion priodol eraill

- Cymryd camau cyfreithiol ei hun mewn achosion yn ymwneud â'r gyfraith, polisïau ac arferion yng nghyswllt diogelu hawliau pobl hn yn gyffredinol neu os yw'r Comisiynydd yn credu na weithredwyd yn unol â hawliau'r person hn

8. Mae'r Grp Cynghori yn credu'n glir mai drwy gael Comisiynydd annibynnol y gellir cyflawni'r cylch gwaith hwn orau, ac mae'n deall y byddai angen **pwerau** deddfwriaethol sylfaenol cyn sefydlu Comisiynydd sy'n gwbl annibynnol. Yn y cyd-destun hwn mae wedi ystyried swyddogaethau a phwerau Comisiynydd Plant Cymru, yn ogystal â Chomisiynydd Plant Gogledd Iwerddon, fel model ar gyfer y Comisiynydd Pobl Hn.

9. Fodd bynnag, y mae hefyd wedi archwilio'r posibilrwydd o benodi Comisiynydd dros dro, a fyddai'n defnyddio'r pwerau presennol ar ran y Cynulliad. Mae wedi sylwi y gellid delio â nifer o'r meysydd a amlinellwyd uchod yn y ffordd hon, mewn perthynas â swyddogaethau'r cynulliad. Byddai hyn yn rhoi cyfle i hyrwyddo sylwadau a phryderon pobl hn cyn cyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol yn San Steffan.

10. Mae'r Grp hefyd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod y cynigion ar gyfer Comisiynydd Pobl Hn yn cyd-fynd â'r trefniadau presennol ar gyfer ymchwiliadau, cwynion a gwneud iawn (gan gynnwys, er enghraifft, y Comisiwn Hawliau Anabledd, llywodraeth leol a threfn gwyno'r GIG, y Comisiynydd Seneddol dros Weinyddu ac Ombwdsman Cymru) i wneud yn sir bod cyn lleied o ddyblygu gwaith â phosibl. Yn yr un modd, bydd angen nodi swyddogaeth briodol ar gyfer y Comisiynydd mewn perthynas

â materion nad ydynt wedi'u datganoli. Bydd hefyd angen sefydlu ffin bendant rhwng y Comisiynydd a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol arfaethedig. Mae'r rhain i gyd yn faterion y bydd y Grp Cynghori'n parhau i'w hystyried a'u datblygu.

11. Yn olaf, mae'r Grp Cynghori yn ystyried a ddylid pennu isafswm oed a fyddai'n diffinio'n gyfreithiol y grp hwnnw o "bobl hn" y byddai'r Comisiynydd yn gweithredu ar eu rhan. At ei gilydd, mae'r Grp yn debygol o gynnig y dylid pennu isafswm oed, ond gan argymell y dylid ystyried 65 a 50 ac i ymgynghori'n ehangach cyn penderfynu.

**Gweithredu**

12. Gwahoddir y Pwyllgor i:

i. drafod casgliadau'r Grp Cynghori sydd ar y gweill
a
ii. nodi y bydd adroddiad ac argymhellion y Grp Cynghori yn cael eu cyhoeddi yn y gwanwyn ac y cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus wedyn.

**Jane Hutt AC**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Cyswllt : Elizabeth Lockwood, Is-adran Polisi Gofal Cymdeithasol, ffôn 029 2082 1695

**Atodiad A: Aelodau'r Grp Cynghori ar Gomisiynydd Pobl Hn Cymru.**

**Cadeirydd** John Griffiths AC

| | |
|---|---|
| **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** | Beverlea Frowen |
| **Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (SOLACE)** | Ken Sawyers, (Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot) *neu*<br>Mark James (Prif Weithredwr, Cyngor Sir Caerfyrddin) |
| **Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS)** | Byron Williams (Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Ynys Môn) |

| | |
|---|---|
| **Cynrychiolydd Bwrdd Iechyd Lleol (Grp y Prif Weithredwyr)** | Andy Williams (Grp y Prif Weithredwyr, Bwrdd Iechyd Lleol Powys) |
| **Prif Gynrychiolydd Ymddiriedolaeth GIG (Grp y Prif Weithredwyr)** | Martin Turner (Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth Gofal Iechyd Gwent) |
| **Age Concern Cymru** | Rob Taylor |
| **Help the Aged** | Ana Palazon |
| **Cymdeithas Genedlaethol Pensiynwyr Cymru** | Alun Davies |
| **Pensiynwyr Cymru** | Mrs Maureen Jenner |
| **Fforwm Pensiynwyr Cymru** | Mrs Nancy Davies<br>Mrs Phyllis Preece |
| **Llywodraeth y DU (Adran Gwaith a Phensiynau)** | Dave Snook (Gwasanaeth Pensiynau, Adran Gwaith a Phensiynau, Pontypridd) |
| **Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru** | Maria Battle (Dirprwy Gomisiynydd Plant Cymru) |
| **Comisiwn Hawliau Anabledd Cymru** | Amelia John (Pennaeth Polisi a Datblygu, Comisiwn Hawliau Anabledd (Cymru)) |